
Adroddiad: Adolygiad o'r trefniadau rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru i lunio rhagolygon trethi Cymreig ar gyfer y flwyddyn weithredu gyntaf 2019-20

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am yr adolygiad o'r trefniadau rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru i lunio rhagolygon trethi Cymreig. Cytunodd y ddau sefydliad fod angen cynnal adolygiad a darperir ar ei gyfer yn y *Cylch Gorchwyl*¹, a nododd fanylion eu trefniant hefyd.
2. Ar adeg yr adolygiad (haf 2020), roedd un cylch blynyddol cyflawn o'r trefniadau rhagolygon newydd wedi cael ei gynnal.

Cefndir y trefniadau presennol

Y fframwaith cyllidol

3. Darperir ar gyfer y gofyniad i roi trefniadau annibynnol ar waith i lunio rhagolygon trethi Cymreig yn *Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru*² ("y fframwaith cyllidol"). Ar gyfer dwy flwyddyn gyntaf rhagolygon trethi datganoledig/Cymreig (ar gyfer cyllidebau a oedd yn ymwneud â 2018-19 a 2019-20), lluniodd Llywodraeth Cymru ei rhagolygon ei hun dros dro a chafodd eu hansawdd ei sicrhau'n annibynnol gan Brifysgol Bangor. Fodd bynnag, o dan y fframwaith cyllidol roedd yn ofynnol rhoi trefniadau ar waith i lunio rhagolygon â sefydliad a oedd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac felly ymrwymodd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i drefniant ffurfiol i lunio rhagolygon ar gyfer cyllideb 2020-21 ymlaen.

Dogfennaeth lywodraethu

4. Mae'r trefniadau ar gyfer llunio rhagolygon trethi Cymreig yn cael eu llywodraethu gan y tair dogfen ganlynol:
 - *Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol*³ ("y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth") – mae hwn yn darparu ar gyfer y trefniadau cyffredinol. Roedd y cytundeb hwn eisoes ar waith ar ôl i drethi gael eu datganoli ond cafodd ei adolygu ar ôl i'r trefniadau penodol ar gyfer llunio rhagolygon gael eu rhoi ar waith rhwng y ddau sefydliad. Cafodd y ddogfen hon ei pharatoi'n wreiddiol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar ôl ymgynghoriad llawn â Llywodraeth Cymru.
 - *Cylch Gorchwyl Darparu rhagolygon ar gyfer trethi Cymru gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i Lywodraeth Cymru*⁴ – cafodd y ddogfen hon ei pharatoi ar y cyd gan y ddau sefydliad ac mae'n nodi gofynion manwl y trefniadau i lunio rhagolygon trethi a ddaeth yn weithredol o 2019-20.
 - *Fframwaith cyllidol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol*⁵ ("y fframwaith cyllidol") – cafodd y ddogfen hon ei pharatoi gan Drysorlys EM mewn

¹ O ran y Cylch Gorchwyl ar gyfer llunio rhagolygon trethi Cymreig gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol dros Lywodraeth Cymru gweler <https://obr.uk/download/terms-reference-welsh-government-obr/>

² Paragraff 52 [Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru](#) (Rhagfyr 2016)

³ [Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#)

⁴ Mae ar gael yn: https://obr.uk/docs/dlm_uploads/Cylch-Gorchwyl-rhwng-Llywodraeth-Cymru-ar-Swyddfa-Cyfrifoldeb-Cyllidebol.pdf

⁵ [Fframwaith cyllidol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#)

ymgyngoriad â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru. Mae'n manylu ar y setliad ariannol rhwng y ddau sefydliad i dalu am gostau llunio rhagolygon trethi Cymreig.

5. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod y trefniadau wedi ymdopi'n dda yn ystod blwyddyn weithredu gyntaf anarferol. Argymhellodd fân newidiadau i'r cylch gorchwyl a'r fframwaith cyllidol sydd wedi cael eu mabwysiadu.

Cyd-destun gweithredol 2019-20

6. Datblygwyd y Cylch Gorchwyl a chytunwyd arno gan ddisgwyl, mewn blwyddyn gyllidol arferol yng Nghymru, y câi Cyllideb Ddrafft ei cyhoeddi ar ddechrau'r hydref, y byddai o leiaf wyth wythnos o graffu gan y Senedd ac yna y câi Cyllideb Derfynol ei chyhoeddi ar ddechrau'r gaeaf. Fel arfer, byddai digwyddiad cyllidol yr hydref Llywodraeth y DU yn cael ei gynnal rhwng cyhoeddi Cyllideb Ddrafft a Chyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.
7. Nid oedd y flwyddyn weithredu gyntaf o dan y *Cylch Gorchwyl* hwn yn un arferol. Bu cryn ansicrwydd ynglŷn ag amseriad cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru y flwyddyn diwethaf o ganlyniad i dair nodwedd anarferol ar y flwyddyn gyllidol:
 - Cylch Gwario blwyddyn Llywodraeth y DU ym mis Medi;
 - Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr; ac
 - o ganlyniad, dim Cyllideb yr Hydref na rhagolwg macro-economaidd wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth y DU.
8. Gohiriodd Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft tan ar ôl y Cylch Gwario ac yna'r etholiad yn y gobaith y byddai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei Chyllideb a'i rhagolwg macro-economaidd, gan nodi sefyllfa gyllidol fwy cyfredol i Gymru. Am nad oedd digwyddiad cyllidol ar gyfer y DU yn yr hydref, gohiriwyd cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru tan fis Rhagfyr 2019, ac roedd y rhagolygon yn seiliedig ar benderfynyddion economaidd o fis Mawrth 2019. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gwblhau cylch Cyllidebol cyfan heb ragolwg macro-economaidd wedi'i ddiweddarau.
9. Gwnaeth yr amserlen anarferol hefyd effeithio ar weithgareddau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys y gwaith allweddol i'w wneud gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dan y Cylch Gorchwyl hwn, sef y ddau adroddiad *Rhagolwg Trethi Cymreig*⁶ yr oedd eu hangen ar wahanol adegau o'r flwyddyn galendr ac a oedd yn cynnwys mewnbynnau gwahanol i'r rhai a ddisgwyliwyd pan gytunwyd ar y Cylch Gorchwyl. Roedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gallu cyflawni ei chyfrifoldebau o dan yr amgylchiadau hyn, gan gyhoeddi ei *Rhagolwg Trethi Cymreig* cyntaf ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a diweddariad ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol, yn ôl y gofyn.

Yr adolygiad: haf 2020

Gweithgarwch yr adolygiad

⁶ [Rhagolwg Trethi Cymreig](#) (y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol) (Rhagfyr 2019) a diweddariad (Chwefror 2020)

Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau sydd wedi arwain at gyhoeddi'r adroddiad hwn.

- Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gwmpas yr adolygiad
- Cynhaliodd y ddau sefydliad drafodaethau tîm ar wahân er mwyn ymateb i gwestiynau'r cwmpas
- Rhannwyd allbynnau ysgrifenedig y trafodaethau hyn rhwng y sefydliadau
- Defnyddiwyd y data a gofnodwyd ar gyfer y trafodaethau hyn i ddrafftio'r ddogfen adolygu
- Rhannwyd y ddogfen adolygu ddrafft â'r ddau sefydliad er mwyn cadarnhau'r ffeithiau a sicrhau bod safbwyntiau wedi'u cofnodi a'u hadlewyrchu'n deg
- Adolygwyd y dogfennau llywodraethu presennol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol a gwnaed newidiadau a awgrymwyd yn ôl yr angen.
- Cafodd fersiynau terfynol o'r adroddiad a'r dogfennau llywodraethu diwygiedig eu hystyried a'u clirio gan Bwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru.

Cwmpas

10. Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y dylai'r cwestiynau a'r meysydd i'w hystyried penodol canlynol gael eu cynnwys yng nghwmpas yr adolygiad:
- A. A yw cost y trefniadau yn adlewyrchu'r gweithgarwch a gynhaliwyd?
 - B. A gafodd gweithgareddau ymgysylltu addas eu nodi a'u cynnal?
 - C. A aeth y broses o lunio rhagolygon a herio rhagddi'n ddiraffferth?
 - D. A yw'r dogfennau sy'n sail i'r trefniadau yn addas at y diben (y Memorandwm Cydddealltwriaeth, y Cylch Gorchwyl a'r fframwaith cyllidol)? A oes unrhyw senarios lle na fyddai'r dogfennau yn cynnig y fframwaith sydd ei angen ac os felly, sut y dylent gael eu newid?
 - E. Ansawdd y ddau gyhoeddiad (dogfennau *Rhagolwg Trethi Cymreig*)
 - F. Myfyrdodau ar gynnwys cyhoeddiadau *Rhagolwg Trethi Cymreig* yn y dyfodol, beth y dylai'r rhain ei gynnwys?
 - G. Cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwerthuso rhagolygon, gan gynnwys ystyried ble y dylid cyhoeddi'r rhain.
 - H. Gwersi ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys unrhyw waith cynllunio senarios.
 - I. Pa werth neu fuddiannau (y tu hwnt i'r Cylch Gorchwyl) a gafwyd o ganlyniad i'r trefniant?

Ymateb i'r meysydd i'w hadolygu

11. Mae'r rhan nesaf o'r ddogfen yn nodi ymatebion Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i bob un o gwestiynau/pynciau'r adolygiad.

Costau

12. Nodir darpariaeth ar gyfer pennu ac adennill costau yn y fframwaith cyllidol. Mae'r elfennau allweddol fel a ganlyn:
- bydd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cytuno ar union gostau'r cyllid bob blwyddyn – *ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid at y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2020 yn cadarnhau cyllid o £100k ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn y flwyddyn ariannol 2020-21. Ceir copi o'r llythyr hwn yn **Atodiad A***

- mae Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ysgrifennu at 'Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid' Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru – *ceir copi o'r llythyr hwn dyddiedig Chwefror 2020 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 yn **Atodiad B***
- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol drwy Drosglwyddiad Cyllideb i Drysorlys EM cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y darperir y gwasanaethau ynddi.

A. A yw cost y trefniadau yn adlewyrchu'r gweithgarwch a gynhaliwyd?

13. Roedd y ddau dîm yn teimlo bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi bodloni ei gofynion a bod y costau'n adlewyrchu'n gywir y gwasanaethau a ddarparwyd fel y'u disgrifiwyd yn y llythyr yn **Atodiad B**.
14. Hefyd, roedd Llywodraeth Cymru yn teimlo bod y trefniadau wedi sicrhau gwerth mawr. Adlewyrchwyd hyn yn yr ymaeb i gwestiwn 'I'

Argymhelliad:

15. Dim argymhellion yn seiliedig ar adborth gan y naill sefydliad na'r llall ond mae adolygiad o ddogfen y fframwaith cyllidol yn awgrymu y dylid:
- diweddarau'r ddogfen er mwyn cynnwys teitl diwygiedig Gweinidog Cyllid a Threfnydd Llywodraeth Cymru
 - diweddarau'r ddogfen er mwyn cynnwys enw newydd y Senedd
 - adolygu'r ddogfen er mwyn sicrhau bod y disgrifiad o'r costau yn ei Hatodiad yn ddigon hyblyg i gwmpasu'r amgylchiadau mewn unrhyw flwyddyn weithredu benodol.

Ymgysylltu

16. Mae codi ymwybyddiaeth o'r cyd-destun cyllidol a meithrin arbenigedd yng Nghymru yn hollbwysig i'r broses ddatganoli. Mae ymgysylltu yng Nghymru er mwyn cynorthwyo yn hyn o beth yn un o'r gofynion allweddol a osodwyd ar y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fel y'i nodir ym mharagraff 21 o'r *Cylch Gorchwyl*. Mae'n ofynnol i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau priodol (gan gynnwys Pwyllgor Cyllid y Senedd) ddwywaith yn ystod y flwyddyn ariannol: unwaith yn ystod yr haf ar ôl Datganiad y Gwanwyn Llywodraeth y DU; ac yn ail, ar ôl Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU, lle mae'n diweddarau ei rhagolygon diweddaraf ar gyfer y ddau ddigwyddiad.
17. Mewn ymateb i'r ddarpariaeth ynglŷn ag ymgysylltu, cynhaliodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y gweithgareddau canlynol yng Nghymru:
- Sesiwn briffio technegol yn y Senedd, a gynigiwyd i bob AS a'i staff (Ionawr 2020)
 - Presenoldeb yn y Pwyllgor Cyllid (Mehefin 2019 ac Ionawr 2020)
 - Presenoldeb a chyflwyniad yn y Gynhadledd flynyddol gyntaf ar Drethi Cymreig (Gorffennaf 2019)
 - Cwrdd a chyfarch/cyfarfod cyfnewid gwybodaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2019)
 - Cyflwyniad mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru (Gorffennaf 2019)

B. A gafodd gweithgareddau ymgysylltu addas eu nodi a'u cynnal?

18. Roedd y ddau dîm yn credu bod y gofynion ymgysylltu yn y *Cylch Gorchwyl* yn glir a bod yr ymdrech i ymgysylltu yn y flwyddyn weithredu gyntaf yn briodol. Mae swyddogion o'r ddau sefydliad hefyd yn ymgysylltu â'i gilydd yn rheolaidd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, er mwyn llunio'r rhagolygon trethi Cymreig ac mae perthynas waith dda wedi datblygu. Hefyd, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn fodlon ar barodrwydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ymgysylltu yng Nghymru, ac ar rychwant ymgysylltu o'r fath, a oedd yn rhagorol.

Argymhelliad:

19. Mae parodrwydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ymgysylltu yng Nghymru ac ansawdd ymgysylltu o'r fath yn rhan bwysig o'r broses o feithrin gallu ym maes trethi a llunio rhagolygon yng Nghymru. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr amcan o ran ymgysylltu wedi'i gyflawni'n dda yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf, bod yr ansawdd yn dda a bod nifer y cyfleoedd y manteisiwyd arnynt yn uwch na'r disgwyl.
20. Mae amgylchiadau'r (ail) flwyddyn weithredu gyfredol yn wahanol iawn ac, yn amlwg, cyfyngwyd gryn dipyn ar y gallu i ymgysylltu yng Nghymru o ganlyniad i argyfwng COVID-19. Bu Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn bresennol ym Mhwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Medi 2020, a rhoddodd Andy King, arbenigwr cyllidol y Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol, gyflwyniad yn y Gynhadledd flynyddol ar Drethi Cymreig ym mis Hydref 2020.
21. Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn y *Cylch Gorchwyl* a sicrhau gwerth am y cyllid sydd eisoes wedi cael ei roi i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol barhau i ymgysylltu drwy ddulliau rhithwir. Bydd yn bwysig hefyd sicrhau digon o ymgysylltu ar gam cynnar â Chadeirydd newydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol er mwyn iddo gael gwybodaeth gefndirol angenrheidiol am y sefyllfa gyllidol, economaidd a sefydliadol yng Nghymru.

Llunio'r rhagolygon

C. A aeth y broses o lunio rhagolygon a herio rhagddi'n ddiraffferth?

22. Roedd y ddau sefydliad yn teimlo bod y broses o lunio rhagolygon a'r cyfarfodydd herio cysylltiedig wedi gweithio'n dda. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ffurflenni rhagolygon o safon uchel ar gyfer y trethi cwbl ddatganoledig. Mae'r broses yn un iterus, lle mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhoi penderfyniadau wedi'u diweddarau ac mae Llywodraeth Cymru yn dychwelyd rhagolygon refeniw diwygiedig dros nifer o gylchoedd. Mae'r cyfarfodydd herio yn gyfle i drafod agweddau ar y rhagolygon ac, yng ngoleuni'r trafodaethau hyn, yn gyfle i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol lunio barn ar y rhagolygon lle y bo angen. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sicrhau ansawdd y rhagolygon, eu mireinio a mynd i'r afael â materion sydd wedi codi mewn modd amserol. Gwelwyd hefyd ei bod yn ddefnyddiol adolygu modelau llunio rhagolygon a llunio barn yn ystod misoedd tawelach yr haf. Roedd y ddau sefydliad yn teimlo bod ymgysylltu rheolaidd, darparu gwybodaeth ar yr adeg gywir a chyfathrebu da yn helpu'r broses i redeg yn ddiraffferth.

23. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd fod y parodrwydd i fod yn hyblyg yn ystod y broses yn hollbwysig yn ystod yr hyn a fu'n flwyddyn anrhagweladwy.

Argymhelliad: gweler 'D'

Dogfennaeth lywodraethu

D. A yw'r dogfennau sy'n sail i'r trefniadau yn addas at y diben (y Memorandwm Cydddealltwriaeth, y Cylch Gorchwyl a'r fframwaith cyllidol)? A oes unrhyw senarios lle na fyddai'r dogfennau yn cynnig y fframwaith sydd ei angen ac os felly, sut y dylent gael eu newid?

24. Nododd y ddau sefydliad fod y ddogfennaeth lywodraethu yn cynnig fframwaith digonol ar gyfer gweithrediadau. Nododd Llywodraeth Cymru, er na fu unrhyw broblemau gyda'r ddogfennaeth, nad oedd eu bodolaeth wedi datrys materion gweithredol yn ystod y flwyddyn gyntaf. Yn lle na hynny, er mwyn cwblhau'r broses yn llwyddiannus, dibynnwyd ar y cydberthnasau gwaith da a oedd ar waith i wneud pethau o dan amgylchiadau anarferol. Pe bai swyddogion wedi dibynnu ar y *Cylch Gorchwyl* yn enwedig, yna byddent wedi wynebu rhai anawsterau, ond mae hwn yn faes heb ei brofi ar ôl y flwyddyn weithredu gyntaf.

Argymhelliad:

25. Bydd 2020-21 yn flwyddyn annodweddiadol arall. Bydd angen bod yn hyblyg unwaith eto er mwyn paratoi'r ddau gyhoeddiad *Rhagolwg Trethi Cymreig*, gan fanteisio ar y cydberthnasau gwaith da sydd rhwng y ddau sefydliad yn hytrach na'r gofynion datganedig yn y *Cylch Gorchwyl*. Heb y sefyllfa ddelfrydol lle mae dyddiadau penodedig ar gyfer digwyddiadau cyllidol y DU a fyddai'n sail i'r gwaith cynllunio, argymhellir y dylid addasu'r *Cylch Gorchwyl* er mwyn sicrhau bod y gofynion ar y naill sefydliad a'r llall yn ddigon hyblyg i gyfrif am flynyddoedd annodweddiadol. Byddai hyn yn bwysig iawn pe na bai modd dibynnu ar gydberthnasau gwaith cadarnhaol. Ymdrinnir â'r newidiadau i ddogfen y fframwaith cyllidol a gynigir ym mharagraff 15 uchod.

Yr adroddiadau

E. Ansawdd y ddau gyhoeddiad (dogfen Rhagolwg Trethi Cymreig)

26. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod ansawdd y cyhoeddiadau'n rhagorol a bod unrhyw adborth a gyflwynwyd iddynt gan randdeiliaid yn gadarnhaol. Roedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn fodlon ar ansawdd ei hadroddiadau ac roedd yn croesawu cymorth Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau hyn.

F. Myfyrdodau ar gynnwys cyhoeddiadau Rhagolwg Trethi Cymreig yn y dyfodol, beth y dylai'r rhain ei gynnwys

27. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y byddai *Rhagolwg Trethi Cymreig* yn parhau i ganolbwyntio ar y trethi datganoledig ond y byddai'r adroddiadau yn adlewyrchu materion cyfredol o ran llunio rhagolygon wrth iddynt godi, gan gynnwys penderfyniadau allweddol a gall hyn gynnwys dadansoddiad pwrpasol yn ôl y gofyn. Bydd yr adroddiadau hefyd yn ystyried perfformiad rhagolygon yn y gorffennol yn erbyn y data all-dro. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o ehangu *Rhagolwg Trethi Cymreig* yn y dyfodol i gynnwys ardrethi annomestig.

G. Cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwerthuso rhagolygon, gan gynnwys ystyried ble y dylid cyhoeddi'r rhain

28. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru wedi trafod y broses o werthuso rhagolygon. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn adolygu ei rhagolygon o'r trethi cwbl ddatganoledig ar gyfer 2020-21 yn ei chyhoeddiad *Rhagolwg Trethi Cymreig* yn 2021. Dim ond pan fydd gwybodaeth all-dro yn cael ei chyhoeddi yn ystod haf 2022 y bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gallu gwerthuso ei rhagolwg ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn 2020-21.
29. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwerthusiad o'i rhagolygon ei hun ar gyfer 2019-20, y caiff ei ansawdd ei sicrhau gan Brifysgol Bangor.
30. Paratowyd nodyn gwerthuso mwy cyffredinol ar y broses o lunio rhagolygon ar gyfer 2020-21 gan Lywodraeth Cymru. Nododd mai effaith fwyaf y tarfu ar brosesau arferol oedd y ffaith yr aethpwyd drwy broses pennu Cyllideb yn ei chyfanrwydd heb ragolwg macro-economaidd wedi'i ddiweddarau, o ganlyniad i etholiad y DU ac absenoldeb Cyllideb yr Hydref yn 2019. Addaswyd y rhagolwg yng Nghyllideb Atodol gyntaf Llywodraeth Cymru yn 2020 er mwyn ystyried *Economic and Fiscal Outlook* y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2020.

Gwersi a buddiannau

H. Gwersi ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gwaith cynllunio senarios

31. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol mai amserlen newidiol digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am ei phrif heriau yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf. Byddai amserlen gliriach a mwy sicr ar gyfer digwyddiadau cyllidol y DU yn fodd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru gynllunio'n haws a byddai wedi sicrhau proses fwy effeithlon a didrafferth. Yr her arall, a achoswyd yn rhannol gan yr amseriadau ansicr, oedd y cyfnod paratoi roedd ei angen i gyfieithu dogfen dechnegol i'r Gymraeg. Caiff y gwersi a ddysgwyd eu defnyddio i leihau risgiau ynglŷn â chyhoeddiadau yn y dyfodol i'r eithaf, ond dylid nodi nad oedd unrhyw broblemau a brofwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn effeithio ar y gofynion o ran cyhoeddiadau.
32. Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno'n llwyr mai'r ansicrwydd ynghylch amserlen Llywodraeth y DU ar gyfer digwyddiadau cyllidol a achosodd yr heriau mwyaf yn ystod y flwyddyn gyntaf hon. Drwy'r dull gweithredu hyblyg a fabwysiadwyd gan y ddau sefydliad a'r lefelau cyfathrebu da, sicrhawyd bod y broses wedi cael ei chwblhau'n llwyddiannus. Yng ngoleuni'r ansicrwydd o ran amseriadau, efallai y byddai'n well pe bai'r gofynion yn y *Cylch Gorchwyl* yn gysylltiedig â digwyddiadau yn hytrach na dyddiadau penodol. Efallai y bydd angen adolygu'r trefniadau eto yn y dyfodol, o ystyried amgylchiadau anarferol y flwyddyn weithredu gyntaf a'r ffaith bod COVID-19 yn golygu y bydd yr ail flwyddyn weithredu yn anarferol hefyd.

I. Pa werth neu fuddiannau (y tu hwnt i'r Cylch Gorchwyl) a gafwyd o ganlyniad i'r trefniant?

33. Nododd y ddau sefydliad fuddiannau sylweddol i'w sefydliadau o ganlyniad i ymrwymo i'r trefniadau ar gyfer llunio rhagolygon trethi.

34. Roedd y buddiannau a nodwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fel a ganlyn:

- mae wedi cryfhau ac wedi gwella ei dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â llunio rhagolygon trethi datganoledig Cymru. Drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, mae wedi cael gwell dealltwriaeth o faterion cysylltiedig megis yr effeithiau trawsffiniol a allai godi pe bai cyfraddau treth incwm Cymru yn wahanol i'r rhai a bennwyd gan Lywodraeth y DU.
- mae'r buddiannau wedi ymestyn i gyhoeddiadau eraill y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, er enghraifft caiff y fframwaith a ddatblygwyd ganddi ar gyfer y bennod ar dreth incwm yn y *Rhagolwg Trethi Cymreig* ei ddefnyddio yn ei hadroddiad *Devolved tax and spending*.
- mae wedi bod ar ei hennill o gael ei hamlygu i set ehangach o randdeiliaid. Mae ei gweithgarwch ymgysylltu yng Nghymru, yn enwedig yn y gynhadledd ar drethi Cymreig, wedi codi proffil ei gwaith ond hefyd wedi gwella ei dealltwriaeth o faterion economaidd a chyllidol sy'n ymwneud â Chymru yn benodol.

35. Roedd y buddiannau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- mae'r cyfle i fanteisio ar brofiad llunwyr rhagolygon sefydledig ac uchel iawn eu parch a rhannu'r profiad a'r wybodaeth honno yn amhrisiadwy. Mae'n rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r ffynhonnell fwyaf o arbenigedd cyllidol, o bosibl, yn y DU, ac un sydd hefyd â chysylltiadau â system y DU a'r gwledydd datganoledig eraill.
- mae wedi cryfhau cydberthnasau â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU, gan fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu'r un cyfarfodydd a'r broses herio ar y cyd â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y mae adrannau eraill o'r llywodraeth sy'n ymwneud â llunio rhagolygon trethi yn eu mynychu.
- mae eu diwylliannau'n debyg – mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn deall terfynau amser y llywodraeth ac mae'n gyfarwydd â blaenoriaethu a bod yn hyblyg – bu hyn yn hynod bwysig y flwyddyn diwethaf pan nad oedd digwyddiadau cyllidol yn cael eu cynnal yn ôl y disgwyl.
- mae rhagolygon gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, fel corff gwarchod annibynnol swyddogol y DU, yn hygred iawn ac yn annibynnol

Casgliad

- Bu'r flwyddyn weithredu gyntaf yn llwyddiannus, er gwaethaf yr ansicrwydd o ganlyniad i amseriad digwyddiadau cyllidol y DU.
- Byddai amserlen glir ar gyfer digwyddiadau cyllidol y DU yn ei gwneud yn bosibl i'r trefniadau weithredu mewn ffordd fwy effeithlon a didrafferth.
- Gellir priodoli'r llwyddiant yn y flwyddyn gyntaf i gydberthnasau gwaith da, parodrwydd i ymgysylltu a hyblygrwydd.
- Roedd y ddau sefydliad wedi cael buddiannau y tu hwnt i'r hyn yr oedd yn ofynnol i'w gyflawni o dan y *Cylch Gorchwyl*.
- Yn niffyg amserlen sefydlog ar gyfer digwyddiadau cyllidol y DU, efallai na fydd blwyddyn nodweddiadol byth ac felly bydd y gallu i lunio rhagolygon yn llwyddiannus yn y dyfodol yn dibynnu ar ymrwymiad i barhau i weithredu'n hyblyg a chyfathrebu da.

Atodiad A – Llythyr cyllido'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref RE/00048/20

Robert Chote
Chairman
Office for Budget Responsibility

c/o: Marcus.Hanson@obr.uk

18 March 2020

Dear Robert,


Thank you for your letter setting out the detail of the costs incurred in 2019-20 by the Office for Budget Responsibility in fulfilling its role as provider of independent tax forecasts for the Welsh Government.

As agreed, the Welsh Government will provide the same budget of £100,000 for the coming financial year. We are also due to review the arrangements this summer, in the light of our experiences of the first year. It may be difficult to draw firm conclusions at this stage, given the unusual context and non-standard scheduling of fiscal events over the last year. However, there will still be lessons to be learnt. Thanks to your organisation's ability to adapt to shifting circumstances, we have good evidence that the system is flexible enough to deal with unexpected changes.

I would like to thank you and your colleagues for your part in making the new arrangements a success, including your engagement work in Wales and the excellent first *Welsh Taxes Outlook* report.

I look forward to the continued smooth running of the independent forecasting arrangements.

Yours sincerely,



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiadd B – Llythyr y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am gostau

Office for
Budget
Responsibility

Rebecca Evans AM
Minister for Finance and Trefnydd
Welsh Government
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Robert Chote
Chairman

102 Petty France
London SW1H 9AJ

obr.uk

18 February 2020

Dear Rebecca

The OBR's funding from the Welsh Government

As required by the Financial Framework between the Welsh government and the OBR, I am writing to set out how the funding from the Welsh Government for 2019/20 has been used by the OBR to deliver the requirements of the Terms of Reference.

A breakdown of the £99,727 spent within the £100,000 budget allocated to the OBR by the Welsh Government is set out in the table below. The largest cost was staff time at £77,659, with the production of the *Welsh Taxes Outlook* and our engagement trips to Cardiff occupying significant amounts of staff time across the paygrades.

Our next biggest cost was the leasing of office space for our new analyst at £9,667, whilst the translation and printing of the report totalled £6,739. Travel to and from engagements in Cardiff, along with hotel accommodation, added a further £2,562. These together accounted for the vast majority of our spending, with the remaining funding spent on new IT equipment, dedicated on-the-job training for our new analyst and the development of new pages on our website in both English and Welsh.

	Estimated cost, £	Actual cost, £
Total staff costs	72,300	77,659
Non-staff costs	27,700	22,068
Office costs	11,100	10,867
of which		
Lease of office space		9,667
Cost of IT equipment		1,200
Printing, website and translation	11,000	7,639
of which		
Printing and Welsh translation		6,739
Website development		900
Travel and accommodation	3,600	2,562
Training and development	2,000	1,000
Total costs	100,000	99,727

Best regards, Robert

Robert Chote
Chairman